

DIWRNOD AGORED Y GYMDEITHAS 2017

Cynhelir Diwrnod Agored y gymdeithas am eleni dan nawdd cangen Sir Gaernarfon yn Bron y Gader, rhan o fferm J Roberts a'i Gwmni, Tyddyn Coed, Llanbedr y Cennin, Conwy LL32 8JD ar ddydd Sadwrn 30 Medi 2017 am 1.00 o'r gloch, drwy garedigrwydd Norman a Bob Roberts a'r teulu.



Yn ennillwyr Cwpan Pierce Owen am y ddiadell orau yn y gymdeithas yn y gorffennol, dim dyma'r tro cyntaf i ddydd agored y gymdeithas gael ei chynnal gan deulu Tyddyn Coed.

I gyrraedd Bron y Gader, dylid yn gyntaf drafailio ar hyd y B5106 rhwng Llanrwst a Chonwy ar yr ochor orllewinol i'r afon Conwy gan droi i'r chwith ger tafarn y Bedol ym mhentref Tal-y-bont os yn dod o gyfeiriad Llanrwst, neu droi i'r dde wrth ddod i lawr o gyfeiriad Conwy. Rhaid wedyn fynd ymlaen drwy bentref bach Llanbedr y Cennin, yn syth i fyny heibio tafarn y Bull ac ymlaen am dros filltir dda arall gan droi i'r chwith i fyny am y mynydd.

Fe fydd arwyddion i'ch cyfeirio ond cofiwch nad ar fferm Tyddyn Coed ei hun y mae'r dydd agored ond ar y mynydd, yn Bron y Gader. **Mae'r ffordd yn eithriadol o gul mewn rhai mannau.** A fuasech cystal ac arddel amynedd a'r gofal mwyaf i osgoi damwain neu anffawd.

Mae fferm Tyddyn Coed yn rhyw 1,000 erw i gyd, yn codi at dros 2,500 troedfedd yn y man uchaf ar Y Drym, mynydd sydd yn rhan o'r Carneddau gyda enw arall hefyd, sef Carnedd Penyborth-Goch. Dyma ran o fferm un o arloeswyr cynnar y gymdeithas defaid mynydd, sef WJ Hughes.

Mae'r ddiadell defaid mynydd â 550 o famogiaid yn cael eu cadw'n bur ynghyd a 150 o ŵyn benyw. Croesir 300 o ddefaid mynydd eraill â hyrddod Blue-faced Leicester i gynhyrchu defaid Mules sydd yn eu tro yn cael eu croesi gyda hyrddod Texel i gynhyrchu ŵyn tewion. Yr arfer fydd gwerthu'r cyfan drwy'r farchnad fyw yn lleol. Mae buches o wartheg Limousin yn cael ei chynnal hefyd.

Darperir lluniaeth ysgafn yn Bron y Gader ble mae cyfleusterau pwrpasol. Mae parcio wedi ei drefnu ar y caeau yn ymyl yr adeiladau. Rydym yn eich annog i fod yn brydlon ac i arddel gofal er mwyn hwyluso'r trafeylio neu fe all greu problemau ar y ffyrdd cul.

DIWRNOD AGORED CYMDEITHAS SIR FEIRIONYDD

Mae cymdeithas defaid fynydd Sir Feirionydd yn cynnal dydd agored ar ddydd Sadwrn 7fed Hydref yn Egryn, Talybont LL43 2BZ ger Y Bermo am 1.00 o'r gloch y prynhawn drwy garedigrwydd Hefin a Bethan Evans a'u mab Gwynfor a'i deulu. Mae Hefin a Bethan yn byw yn Eithinfynydd, fferm 600 erw yn cynnal 500 o ddefaid mynydd Cymreig a 30 o wartheg duon pedigri. Mewn arwerthiant y Gwartheg Duon yn Dolgellau ym mis Ionawr eleni, gwerthwyd un o deirw Hefin am 16,000 gini. Hefin ydi'r drydedd genhedlaeth o'r teulu i fyw yn Eithinfynydd.

Cynhelir y dydd agored yn Egryn ble mae Gwynfor yn denant i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Fe fydd Gwynfor yn mynd allan i gneifio neu adeiladu waliau cerrig fel mae angen ac yn derbyn cymorth ei frodyr John neu Meirion ar brydiau.

Mae Egryn yn ymestyn hyd at 400 erw ac yn cario 400 o ddefaid mynydd, 100 o ddefaid croes a 35 o Wartheg Duon pedigri. Cedwir hyrddod Charolais ac Aberfield yn ogystal a rhai mynydd. Mae'r ŵyn tewion y mynd yn syth i'r lladd-dy gyda ŵyn stôr a'r defaid magu yn cael eu gwerthu drwy Farmers Marts yn Dolgellau.

Mae Egryn wedi ei lleoli ar yr A496, ychydig i'r de o bentref Talybont, rhwng Harlech a'r Bermo. Mae'n agos iawn i'r ffordd ac fe fydd arwyddion i'ch cyfeirio yno. Cofiwch arddel gofal wrth droi i mewn am y fferm, yn enwedig os yn croesi'r ffordd gan fod moduron yn gallu gyrru'n eithriadol o gyflym heibio i Egryn.

Fe fydd lluniaeth ysgafn yn cael ei baratoi.

